Creu gardd glöynnod byw

Ydych chi'n hoffi melysion? Mae glöynnod byw yn eu hoffi, hefyd – hynny yw, neithdar melys. Adeiladwch siop felysion iach i löynnod byw trwy dyfu planhigion i'w gwirioni. Dewiswch berlysiau – mae nhw'n blanhigion gwydn sy'n cynhyrchu llawer o flodau ac yn gallu byw am flynyddoedd.

Byddwch angen

- Cwpanau plastig neu botiau iogwrt
- Bagiau plastig clir
- Blwch ffenest, potyn neu dwb
- Graean neu ddarnau mân o hen botyn
- Pridd neu gompost heb fawn
- Tywod
- Trywel
- Hadau perlysiau fel mintys y graig, rhosmari, teim, cennin syfi
- Bwced dyfrio

1 Dechreuwch drwy dyfu eich planhigion dan do. Llenwch gwpanau plastig neu botiau iogwrt gyda phridd a gwasgarwch hadau ar ei ben. Gorchuddiwch nhw â bagiau plastig, gan ddyfrio rhyw ychydig, a chadwch nhw dan do nes bo'r egin ychydig wythnosau oed.

2 Llenwch waelod y potyn neu'r twb gyda graean neu ddarnau mân o botyn. Mae perlysiau'n casáu gwreiddiau gwlyb, felly gwnewch yn siwr fod dŵr yn draenio i ffwrdd yn hawdd.

3 Cymysgwch eich pridd gyda thywod, yna llenwch y twb.

4 Nawr torrwch dyllau o faint cwpan neu botyn yn y pridd a symudwch eich egin i'r twb.

5 Rhowch y twb mewn llecyn heulog. Dyfriwch eich perlysiau (ond ddim gormod!) a gwyliwch nhw'n tyfu a blodeuo. Dowch yn llu, löynnod byw!

yn rhoi cartref i fyd natur

Mae'r RSPB yn elusen gofrestredig yng Nghymru a Lloegr, yn Yr Alban SC037654 040-1-0513-16-17
Lluniau gan David Tipling (rspb-images.com)Butterfly by proxyminder (istockphoto.com)